

Y Tri Mochyn Bach



twinkl


twinkl
Quality Standard
Approved

Un tro, roedd tri mochyn bach yn byw.




twinkl.co.uk


Roedd pob mochyn bach eisiau adeiladu tŷ iddo'i hun.




Penderfynodd y mochyn bach cyntaf adeiladu tŷ allan o wellt.



Penderfynodd yr ail fochyn bach adeiladu tŷ allan o frigau. Adeiladodd y tŷ yn gyflym iawn a roedd yr ail fochyn bach yn falch iawn o'i waith.



Penderfynodd y trydydd mochyn bach adeiladu tŷ allan o friciau.
Adeiladodd y tŷ yn ofalus iawn a chymrodd amser hir i'w orffen
ond roedd y trydydd mochyn bach yn falch iawn o'i waith caled.




Un diwrnod, daeth blaidd mawr cas heibio.




twinkl.co.uk


Gwelodd y blaidd y mochyn bach cyntaf yn ei dŷ allan o wellt. "Mochyn bach, mochyn bach, ga i ddod i mewn?" gofynnodd y blaidd mewn llais clên. "Na chei, chei di ddim!" atebodd y mochyn bach cyntaf.




"Felly mi chwytha i ac mi chwytha i ac mi chwytha i dy dŷ yn rhacs!" chwyrnodd y blaidd mawr cas.




A dyna a wnaeth. Chwythodd a chwythodd y tŷ gwellt i lawr yn fflat! Rhedodd y mochyn bach cyntaf nerth ei draed i ymuno â'i frawd yn y tŷ wedi ei wneud allan o frigau.



Dilynodd y blaidd mawr cas y mochyn bach i'r tŷ wedi ei wneud allan o frigau. "Mochyn bach, mochyn bach, ga i ddod i mewn?" gofynnodd y blaidd mewn llais clên. "Na chei, chei di ddim!" atebodd yr ail fochyn bach.




"Felly mi chwytha i ac mi chwytha i ac mi chwytha i dy dŷ yn rhacs!" chwyrnodd y blaidd mawr cas.




twinkl.co.uk

A dyna a wnaeth. Chwythodd a chwythodd y tŷ allan o frigau i lawr yn fflat! Rhedodd y ddau mochyn bach nerth eu traed i ymuno â'u brawd arall yn y tŷ wedi ei wneud allan o friciau.




Dilynodd y blaidd mawr cas y moch bach i'r tŷ wedi ei wneud o friciau. "Mochyn bach, mochyn bach, ga i ddod i mewn?" gofynnodd y blaidd mewn llais clên. "Na chei, chei di ddim!" atebodd y trydydd mochyn bach.




twinkl.co.uk


"Felly mi chwytha i ac mi chwytha i ac mi chwytha i dy dŷ yn rhacs!" chwyrnodd y blaidd mawr cas.



Chwythodd a chwythodd a chwythodd, ond roedd y tŷ allan o friciau yn rhy gryf! Llwyddodd o ddim i chwythu'r tŷ allan o friciau i lawr.



Roedd y blaidd mawr cas yn flin iawn! Dringodd i ben to y tŷ er mwyn cropian i lawr y simnai. Roedd sypreis mawr yn aros i'r blaidd mawr cas!



Roedd y trydydd mochyn bach wedi bod yn coginio crochan mawr o gawl a SPLASH! Cwympodd y blaidd mawr cas yn syth i mewn i'r crochan!




Cafodd y blaidd mawr cas fraw. Neidiodd allan o'r crochan a rhedodd yn syth allan o'r tŷ. Ni ddaeth y blaidd mawr cas byth yn ôl.



twinkl.co.uk

Bu'r tri mochyn bach yn byw yn ddiogel gyda'i gilydd yn y tŷ briciau am byth.



twinkl

twinkl
Quality Standard
Approved